YR YMOFYNNYDD

. . Cylchgrawn Misol . .
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygydd—Y Parch. J. D. JONES, B.A., B.D.

CYFROL XLIII. EBRILL, 1943. RHIF 4.

Ein Rhyddid.

(*Parhad o tudalen 35.*)

DYLANWADAU GWRTH-DRINDODAIDD.

Nid oes angen dweud fod dylanwad gwrth-drindodaidd yn amlwg ar ddiwinyddiaeth y cyfnod hwn. Pe bai gofod hoffwn ymhelaethu arno. Yr oedd ysbryd goddefiad hefyd yn y tir. Dyma'r flwyddyn y cyhoeddwyd gan John Locke, Undodwr, ei *Letter concerning Toleration.* Dywaid ynddo nad oes gan y wladwriaeth hawl ar eneidiau dynion, ac na ellid *gorfodi'r* meddwl i gredu dim. Ar feddwl Locke gweithredai dylanwadau Rhesymoliaeth (Rationalism) a syniadau'r gwyddonwyr fel Syr Isaac Newton, Undodwr arall.

Wedi 1689 gorfu i'r gwrth-drindodiaid gyhoeddi eu gwaith yn ddienw. Dyma gyfnod yr *Unitarian Tracts.* Mewn Act a basiwyd yn 1698 gwrthwynebwyd y Sosiniaid a'r Deistiaid trwy wneud gwadu athrawiaeth y Drindod yn anghyfreithlon. Gelwid yr Act hon yn *Act against blasphemy and profaness.* Yn 1711 pasiwyd yr *Occasional Conformity Act.* Fel y dywedwyd eisoes, dan y *Corporation* a'r *Test Acts* yr oedd yn rhaid i bob un a ddaliai swydd dan y llywodraeth neu ar gyngor tref gymuno yn yr Eglwys Wladol. Gwnaethai rhai hynny ryw unwaith yn y flwyddyn er mwyn bodloni'r awdurdodau, ond dan yr Act hon yr oedd yn anghyfreithlon cymryd y Sacrament yn yr Eglwys oni byddai dyn yn *arferol* o addoli yno. Yn 1714 pasiwyd y *Schism Act,* ac o dan hon ni allai Anghydffurfiwr gadw hyd yn oed ysgol breifat ! Dim ond am amser byr y bu'r ddwy Act ddiwethaf hyn mewn grym.

Dyma ni wedi cyrraedd dyfnderoedd y gorthrwm. Ein gwaith nesaf ydyw ystyried yr Actau hynny sy'n symud y gorthrwm. Awn heibio'r *Indemnity Act* (1729). Yn 1779 diwygiwyd y *Toleration Act.* Dan yr hen Act rhaid oedd llawnodi 35 o ethyglau ffydd Eglwys Loegr. Yn awr gwnaethpwyd cred yn yr Ysgrythurau fel rheol ffydd ac ymarferiad yn amod rhyddid. Yn 1812 diddymwyd y *Five Mile Act* a'r *Conventicle Act.* Yn 1813 pasiwyd y *Trinity Act.* Dyma'r ddeddf sy'n rhoi rhyddid i'r Undodiaid. Fe'i disgrifir fel "An Act to relieve persons who impugn the doctrine of the Holy

Trinity from certain penalties." Os galluogodd yr Act hon yr Undodiaid i ddod i'r amlwg, effeithia hefyd ar y *Dissenters* yn gyffredinol. Ni orfodir *Dissenter* bellach gan y Gyfraith i fod yn Drindodwr.

Ond fe anghofiodd yr Act hon y *Trust Deeds*. A'r frwydr nesaf i'r Undodiaid ydyw'r frwydr i gadw meddiant o'u haddoldai. Y mae rhai ohonynt yn hen, wedi eu hadeiladu'n union wedi'r *Toleration Act* (1689). Bu'r frwydr boethaf rhyngddynt a'r Independiaid. Gwnaethpwyd *test case* o'r Capel yn Wolverhampton, a chollodd yr Undodiaid eu hawl ar y Capel hwnnw. Yn wir nid oedd y *verdict* yn foddhaol i'r Independiaid hefyd, canys trosglwyddwyd y Capel a'i eiddo at wasanaeth yr Eglwys Wladol. Parhaodd y cyfnod o gyfreithio am bum mlynedd ar hugain. Yn 1842 rhoes y *Lord Chancellor* ei *verdict*. Nid oedd un o'r hen gapeli bellach yn ddiogel. Meddai adroddiad y *British and Foreign Unitarian Association* am 1843 : "the consequences of the decision to the property and interests of Unitarian Societies throughout the kingdom are most painful and momentous." Yr unig help yn awr ydoedd *Act of Parliament*, ac ym mis Gorffennaf 1844 pasiwyd y *Dissenters' Chapels Act*. O dan yr Act hon daliai'r Undodiaid feddiant yn yr hen addoldai ond iddynt brofi i Undodiaeth gael ei bregethu ers pum mlynedd ar hugain. Yn Nhy'r Cyffredin dadleuwyd dros y mesur gan Gladstone, ac y mae'n werth dyfynnu o'i araith, oherwydd y teflir goleuni ganddo ar ddatblygiad Undodiaeth yn yr hen gynulleidfaoedd.

> "Here were persons, who founded these chapels, entertaining one creed, and the present possessors of these chapels profess another creed. I admit that this sounds startling. But If you take the pains to follow the course of events from year to year, it is impossible to say *at any given period* the transition from one doctrine to another was made. It was a gradual and an imperceptible transition. The parties who effected it made a different use of the principle of inquiry by private judgment than those who had preceded them ; but *they acted on a principle fundamentally the same*."

Y Ddeddf hon a roes i ni ein rhyddid i ddal meddiant yn ein addoldai. Fe droes y ddeddf hon wyneb y *Trinity Act* tuag yn ôl.

Y mae'r frwydr am ryddid i'n mynegu ein hunain yn grefyddol wedi ei hennill, ond nid ydyw'r brwydro trosodd. Y mae'n parhau heddiw am *religious equality*—cydraddoldeb crefyddol. Er mor ddiddorol ydyw'r hanes hwnnw, ni pherthyn yn awr i'm testun.

Meddyliwn, er enghraifft, am un o'r hen gapeli,—Caeronnen, Ciliau, Gellionnen. Cymerer Gellionnen. Fe'i adeiladwyd yn 1692 mewn canlyniad i'r *Act of Toleration*. Dywaid carreg yn y mur a osodwyd yno yn 1801, "This place for the use of a society of Protestant Dissenters was first erected in 1692. *A society of Protestant Dissenters*—dyna'r geiriau pwysig, a chystal enghraifft ag

un sy gennym o'r *Open Trust*. Gan nad oedd obaith gwneud pawb yn aelodau o'r Eglwys Esgobol, yr Eglwys wladol, ymgeisiodd y *Toleration Act* wneud y Protestant Dissenters yn fudiad crefyddol unedig y tu allan i'r Eglwys. Yn rhengoedd y Protestant Dissenters yr oedd tri enwad, y Presbyteriaid, yr Independiaid a'r Bedyddwyr. Ac am flynyddoedd buont yn addoli gyda'i gilydd yn yr un lle. Felly y gwnaent yng Nghapel Gellionnen. Ond fe gyfodai'n y cynulleidfaoedd ddadleuon ar bynciau diwinyddol. Clywid llawer o siarad yn awr am y Gyfundrefn Drindodol. Nid yn unig Dduwdod Crist, ond rhannau hanfodol o'r gyfundrefn hon ydyw Pechod Gwreiddiol, Cosp Dragwyddol, Iawn Ddirprwyol. Fe ddaeth llawer o'r hen gynulleidfaoedd i edrych ar y Gyfundrefn Drindodol fel llygriad o'r Gristnogaeth fore Daethant i ystyried Crist fel person sy'n fwy dynol, i synied yn fwy rhesymol am y Beibl, a phregethu gobaith eangach am iechydwriaeth dyn.

Y SECTAU'N GWAHANU.

Yn 1719 bu dadl bwysig yn Salter's Hall, Llundain. Y cwestiwn ydoedd—A ddylid rhwymo'r gweinidogion a'r cynulleidfaoedd i gredu rhyw athrawiaethau neilltuol? Dyma'r ddadl a barodd twyg rhwng yr Independiaid a'r Presbyteriaid. Hawliai'r mwyafrif o'r Independiaid dros gredo. Daliai'r mwyafrif o'r Presbyteriaid dros wneud y Beibl yn rheol ffydd, a gadael i bob dyn esbonio'r Beibl yng ngoleuni ei gydwybod. Meddai'r Presbyteriad, Os ymadawodd ein teidiau ag Eglwys Loegr er mwyn rhyddid, nid ydym ninnau'n fodlon gwadu ein rhyddid. Y dydd hwnnw fe werthodd yr Annibynwyr eu rhyddid meddyliol. Yr oedd llygaid holl Ymneilltuwyr y wlad ar y ddadl hon, a sieryd dynion bellach yn y cynulleidfaoedd am yr "hen" athrawiaeth a'r athrawiaeth "newydd." Disgrifia Alexander Gordon y ddadl fel "conflict between the spirit of uniformity and the spirit of liberty. We may fairly claim that the Salters' Hall rift worked out so as to sever two tendencies, and let each do its best in making English History. From the middle of the eighteenth century those who were for doctrinal uniformity got the name of Independents, and those who were not for uniformity but for tolerance and liberty got the name of Presbyterians."

UNFFURFIAETH CREDO YNTE RHYDDID BARN.

Hwn ydyw ein traddodiad ni fel Undodiaid. "A Church which regards the worship of God as of supreme importance, and the difference in modes of worship and in form of doctrine as of minor importance."

Ein Rhyddid—nid yn unig rhyddid i grefydda ond rhyddid mewn crefydd ydyw. Nid rhywbeth disylwedd mohono. Nid rhywbeth a'n galluoga ni i wneud fel ag y mynnom. *Amod* ein datblygiad ysbrydol a chrefyddol ydyw,—rhyddid i fod yn fwy, i feddwl yn uwch, i wneud yn well, rhyddid i ufuddhau i gymhellion y datguddiad eangach ac i ddilyn y weledigaeth ragorach.

Trem yn Ol.

DIDDOROL ar dro bwrw trem yn ôl, a byw eilwaith slawer dydd. Ni chofia neb ohonom ond anaml ei fod yn mynd yn hen. Gwelaf i arall yn hen dros ben, ond pan holaf fy hunan gan gofio fy oed, yr wyf yn newid ymadrodd. Digon tebig fod y mwyafrif ohonom felly. O leiaf yr wyf i. Ychydig ddyddiau yn ôl yr own yn rhoi tro am chwaer y diweddar Hathren Davies, hithau wedi ei chaethiwo i'w gwely ers tro ond ar wellhad bellach. Uwchben ei gwely yr oedd darlun o Hathren, gyda'i wyneb agored, ei farf fraith, a'i lygaid byw a threiddgar. Gyda llaw ni chlywais mohono yn pregethu, er y carwn fod wedi'i glywed. Gofynnais yn ddidaro iddi ei oed, gan gredu yn sicr ei fod yn hen. Brawychais o ddeall ei fod yn ei fedd cyn cyrraedd fy oed i. Y mae troion felly yn adgofio dyn ei fod yn dirwyn ymlaen, ac nad erys amser i neb ohonom. A rhyw feddyliau felly yn fy llanw, yr own pwy ddydd yn ôl yng Nghapel-y-bryn, ond ni chredaf i mi weld nemor un a oedd yno. Ehedai fy meddwl hanner can mlynedd yn ôl, a gwelwn yr hen gynulleidfa yn gryno yno, heb ohonynt un ar goll. Tremiwn hwnt ac yma, gan gofio am lu o'm hen gyfoedion a ffrindiau y sydd wedi blaenu. Ni byddai nemor o bleser i neb wybod eu henwau ond yr own i gartref, yn mwynhau orig felys yng nghwmni difyr hen ffyddloniaid slawer dydd. Hyd y gwn un o arwyddion cyntaf henaint yw tremio yn ôl a gweld y gorffennol yn ennill tir ar heddiw. Hyd yn hyn yr wyf wedi cadw gafael sicr arnaf fy hun, ond ar fy ngwaethaf rywsut y mae 'slawer dydd yn dod yn anwylach beunydd.

Doi llawer oedfa yn fyw i'm cof. Bore Sul ydyw, ac y mae y côr mawr yn llawn. Fan draw y mae JACI TANGRAIGFACH. Edrychai i mi fel wedi dihoeni a chrino. Ni wn am ei allu na'i fedr. Ni chredaf imi ei glywed yn dweyd gair yno erioed. Eto yr oedd yn help i galon llanc ifanc addoli o'i weld yn eistedd mor dawel a thangnefeddus yno, a golau byd arall yn chwarae arno. Yn y gornel arall yr oedd DEIO PANTSWLLT, dyn byr, tawel, diymhongar heb fod na chanwr nac areithiwr hyd y gwn i, ond yr oedd yn selog. Suliau lawer y cofiaf ei ddyfod dros riw Pensarn hanner awr cyn yr amser. Cofiaf ragor. Cofiaf am gyngerdd, hwyrach, yn y Cwm, ond o leiaf yr oedd Deio yn mynd i "ddweyd pishyn" chwedl ni'r plant. Ni wnai pob pishyn mo'r tro. Yr oedd Deio yn ymofyn un newydd spon, a chafodd ei ddymuniad ar y testun, "*Peidiwch a Phwno Dyn ar Lawr.*" Gŵyr y neb a adwaenai Deio am ei ffordd bwyllog ef o "ddweyd ei bishyn."

Yn hwyr ar Sul cymundeb, cofiaf am weld henafgwr, a edrychai yn llesg a blin yn dod i mewn—DAFYDD PENSARNAU—gŵr arall tawel a didwyll, cymeriad gonest a'i waith yn arddel ei grefydd.

Ni wn am allu na hyodledd yr un ohonynt ond i mi hanner can mlynedd yn ôl yr oent yn "wŷr Duw mewn gwirionedd." Gyda llaw, nid ynt ddim yn llai heddiw.

Yn arwain y gân yr oedd y Melinydd, a chredwn i ei fod yno erioed. Rywsut ni restrwn mohono gyda'r lleill. Yr oedd gennyf fy nôd fy hun arno. Yr wyf wedi darllen "Coll Gwynfa Miltwn", a chredwn i yr adeg honno fod rhywbeth tebig i un o'r angelion syrthiedig ynddo. Gwn am ei waith dros yr eglwys, am ei sêl a'i ffyddlondeb, ond gwn hefyd am lawer cwrs a gaem ni blant yr ysgol o geisio dal shildod ym mhenfarch y Felin. Yr wyf weithian wedi anghofio'r cwrs a phopeth.

Heb fod ymhell, er nad yn y cwmni hwn, yr oedd DAFYDD JONES TROEDRHIW. Hwyrach fy mod yn fwy cyfarwydd ag ef na'r un ond DEIO PANTSWLLT. Bob bore yr oem yn sicr o'i gyfarfod o'r Ddeufwlch i'r pentre, ac os ofnem ein bod yn ddiweddar i'r ysgol nid oedd dim amdani ond gofyn yr amser iddo. Gwelaf ef y funud hon yn tynnu'i *watch* o ryw boced nad oedd gennyf i, ac ni fynnai ef y gallai ei *watch* fod o'i lle. Chwarae teg iddo. Cerddodd fel ei *watch* gan gadw'r amser i'r diwedd, a choffa da am ei enw.

Ynghanol y rhain, megis o'r golwg, yr oedd un arall. Nid y lleiaf ohonynt ychwaith—GRUFFYDD JONES BRYNLLEFRITH. Rywsut ni chredwn i fod Gruffydd Jones yn hen. Yr oedd fel Peter Pan. Gŵr syml a syber, gŵr cywir ar air a gweithred, gŵr ffyddlon mewn cwrdd ac ysgol Sul. Ni ddwedai rhyw lawer. Yr oedd ei eiriau fel ef ei hunan i bwynt, a chredaf iddo gerdded ei lwybr heb wastraff ar air na dim. Yr oedd yn dda gennyf pwy ddydd fod yn ei angladd, ac yntau wedi croesi 'mhell ddyddiau'r addewid ond yn dal yn sionc bron i'r diwedd. Ni osododd neb fi yn farnwr ar y naill na'r llall, ond pwy ddydd yn angladd Gruffydd Jones credwn eu bod yno bob yr un ; yr oent, yn eistedd fel y'u gwelais hanner can mlynedd yn ôl.

Yr own i fel pawb arall i fod i wrando'r pregethwr yn pregethu ond ni chlywais nemor air ohono. Drwy gydol y gwasanaeth, arall a welwn i—Y PARCH. JOHN DAVIES TANCOED—a'i farf lydan, a'i lais dwfn, a'i barabl pwyllog a'r olwg dywysogaidd, trwsiadus ei wisg, hamddenol ei gerdded, a chredwn a chredaf y medrai dynnu'r nef yn agos ar weddi.

Y maent hwy a'r hen weinidog wedi blaenu ; ni ddwedaf fod yr un ohonynt yn ddi-fai : heb ei fai, heb ei eni. Y mae Capel-y-bryn wedi bod yng nghlwm a'm bywyd mewn llawer dull a modd. Credaf, erbyn hyn o leiaf, eu bod i gyd wedi gweithredu ymhob argyfwng yn unol a'r golau uchaf. Oni wnaethant, y mae'r cyfrifoldeb arnynt hwy ac y maent wedi mynd i roi cyfrif amdano. O fwrw trem yn ôl, ni ddwedaf i ond "Yr hwn sy'n ddieuog, tafled y garreg gyntaf." Yr oent o leiaf ym marn glaslanc ieuanc yn bobl dawel, ffyddlon, ac yn ofni Duw yn fwy na llawer.

Dyna Gapel-y-bryn hanner canrif yn ôl, ac fel y mae dyn yn heneiddio y mae'n gwreiddio mewn ardal arall, ac yn ystod deng mlynedd ar hugain bron, y mae CAERONNEN wedi mynnu mynd a'm serch. Ni chredaf bod un gynulleidfa yn yr enwad wedi ymdrechu mwy, nac wedi bod yn haws i'w bugeilio. Gyda Chapel-y-bryn, y gwrywod oedd yn blaenu ymhob dim. Ni chofiaf am nemor i wraig yn yr ysgol Sul yno nac yn blaenori yn y capel. Ni wn i pam ond y mae Caeronnen yn wahanol. Gydag yn unig eithrio Tom Nathaniel, Jones Lanlas, Evan Davies Blaenwaun, a John Davies Caeronnen yn fy amser i, benywod sydd wedi gosod eu stamp ar Gaeronnen o'r dechrau. Ni fedr neb siarad am Gaeronnen heb sôn am Miss Jones y Wern, benyw ragorol ac un a fu yn golofn yng Nghaeronnen am flynyddoedd. Fe garwn i fod wedi'i hadnabod ond yr oedd wedi blaenu ymhell cyn fy amser i. Sicr ei bod yn gymeriad prydferth a chadarn oherwydd y mae'r adgof amdani ynghof y rhai hynaf yn dal yn fyw iawn. Ni chefais i y fraint o adnabod Mrs. Davies Trebannau na Miss Lewis Maesgwilym, dwy a fu yn fawr eu sêl dros Gaeronnen.

Nid oedd y rhain ond adgofion melys, yn perarogli awel Caeronnen pan ddeuthum i yma. Cofiaf yn dda ambell oedfa felys a nifer o hen chwiorydd annwyl iawn yn y gynulleidfa. Ni wn sut y medrodd llawer un ohonynt ddygymod â dyn ifanc, yn parablu'n gyflym, yn dweyd rhai pethau croes iddynt hwy ond ni phallodd eu hamynedd na'u ffyddlondeb na'u cariad.

Dowch i mewn i'r hen gapel gyda mi y troion cyntaf. Yr oedd golwg henafol ar bopeth, ar yr adeilad a'r gynulleidfa. Credaf y dywedid heddiw eu bod yn hen ffashwn. Beth bynnag am yr olwg na'r dillad, nid oedd dim yn hen ffashwn ar galon na chrefydd yr un ohonynt.

Gwelaf y funud hon Mrs. Jones Gelligaer, pennaeth un o hen lwythi'r eglwys, a rhywbeth yn fonheddig ynddi, gyda llu o ddisgynyddion a thylwyth a'r mwyafrif mawr wedi blaenu ys llawer dydd. Y peth sy'n drist ydyw fy mod wedi claddu bron bob un a oedd yma i'm croeshawu ddeng mlynedd ar hugain yn ôl ag eithrio John Evans Tymawr, cynrychiolydd a'r unig un o hen deulu y NATHANIELIAID. Heb fod ymhell o'r pulpud uchel y mae Anne Davies fach, a'i hateb parod mewn cymanfa ysgolion, a selog ymhob cyfarfod, a'i chwaer Leiza Davies fel y'i galwem.

Cydgerddodd SHAN GLYN y ffordd o Gwmanne i Gaeronnen droion gyda mi, ac yr oedd y cwmni a'r glonc yn felys. Syml iawn oedd Sarah Jones y Blaenau a Leiza fach, ac yr oedd rhywbeth yn dawel a charedig yn Mrs. Jones Tycapel, Leiza Pantglas a Mari Gelligaer, Mrs. Evans y Fountain, a llawer hen chwaer arall. Cofiaf yr oriau difyr a dreuliais yng nghwmni Beto Davis. Yr oedd Nell Hughes wedi blaenu cyn fy amser i. Ni ddwedaf nad oedd yma wrywod fel John Jones, Eliaz Jones (tadcu a thad y

Parch. J. D. Jones), Watkin Davies, teulu Rhydderchlwyd, Daniel Tycapel ac eraill. Dyna ddarlun o Gaeronnen slawer dydd. Yr ym wedi cael llawer dyrnod yn ystod fy amser i ond ni chredaf i Gaeronnen gael erioed ddyrnod trymach nag a gawsom pwy ddydd pan hunodd Mrs. Davies Llwynifan (neu Emma Trebannau, fel y mynnai'i hen ffrindiau ei galw). Nid oedd yn drigain a phump, ond hunodd pwy ddydd wedi cystudd hir a blin. Y mae ffenestri Caeronnen o dan y black-out ; y mae Cellan i gyd yn wylo o'i cholli. Ni cherddodd i Gaeronnen erioed gymeriad mwy hawddgar, mwy siriol, mwy selog a mwy boneddigaidd ymhob dim. Anaml yr oedd ei lle yn wag a dysgodd ei theulu lluosog i fod yr un mor selog a gweithgar. Nid oedd dim yn ormod ganddi i'w wneud dros Gaeronnen. Fel y cwympai un ar ôl y llall o'r hen ffyddloniaid, yr oedd hi yma a'i hysgwydd dan y baich a'i gwên siriol i'n calonogi 'mlaen. Yr oedd ganddi galon fawr, ac nid oedd dim yn biniwngar ynddi. Yr oedd yn "bur o galon" drwodd a thro. Ni fynnaf heddiw godi cwr y llen er tremio i'r dyfodol. Y mae fy nyddiau i wedi'u rhifo yma ond y mae'n dywyll ymlaen o'i cholli, a chofir am ddydd ei daearu fel un o ddyddiau duaf Caeronnen.

" . . . take her for all in all,
I shall not look upon her like again."

N. a N.

YR YMOFYNNYDD.—Derbyniwyd at y Gronfa yn ystod y mis diwethaf : Brondeifi £1 5s. 3d. ; Capel y Groes £1 16s. 6d. ; Graig, Llandysul (1941–42–43) £3 0s. 0d.—(D. Jones, *Trysorydd*, Maesyrhaf, Lampeter.).

ALLTYPLACA.—Cafwyd cynulleidfa dda ar nos Gŵyl Dewi i wrando ar y Parch. E. O. Jenkins, ac yntau yn ei hwyliau gorau yn traethu ar "Tomos Bartley"—y cymeriad byw o'r nofel *Rhys Lewis* gan Daniel Owen, ac ni fu Tomos erioed yn fwy byw nag oedd y nos hon. Bu gwasanaeth rhad Mr. Jenkins yn help ariannol sylweddol i'r gynulleidfa. Yr Henadur Meredith Williams oedd yn llywyddu, ac ychwanegodd £3 3s. 0d. at y swm a dderbyniwyd wrth y drws.

RHYDYGWIN.—Bu Miss Evans, N.D.D., Ffynnonfair, ar ymweliad a'r adran leol o Gynghrair y Gwragedd, a chafwyd ganddi anerchiad ar "Y Fenyw a'i gwaith." Mae Miss Evans bob amser yn gwybod ei mater yn dda, ac yn meddu ar y gallu i'w mynegu ei hun yn eglur, ac yr oedd yn nodedig felly y tro hwn. Hefyd bu Mrs. Jones, Penllwynbedw, Llangybi, yma ddwy waith yn dysgu'r ffordd i wneud *cord shopping bag* a *pochette*. Mae hithau yn fedrus iawn. Mae'r adran wedi bod yn llewyrchus yma drwy y gaeaf. Yn un peth y mae mwy nag arfer o'r rhai ieuainc yn bresennol.

Martin y Cobler.

MEWN tref fechan yn Rwsia gynt yr oedd Martin Avedeitch, y cobler, yn byw. Gweithiasai mewn seler, a thrwy'r unig ffenestr ni allasai weld ond traed y bobl a fyddai'n cerdded heibio. Yr oedd yn adnabod pobl wrth eu hesgidiau, a bu pob esgid bron yn y gymdogaeth rywbryd yn ei law. Dyn geirwir oedd Martin, ac ymddiriedai pobl yn ei addewidion ac yn ei waith.

Dyn oedrannus ydoedd, a dechreuasai bellach feddwl yn fwy dwys am ei enaid ac am ei Dduw. Bu ganddo wraig a phlant, ond buont feirw i gyd ond un, ei annwyl Kapiton bach. Yn ei lencyndod bu Kapiton yntau farw. Drymed ydoedd yr ergyd hwn nes peri i Fartin yn ei anobaith a'i alar gablu enw ei Dduw. Ni arferai mwyach fyned i'r tŷ addoli.

Aeth amser heibio, ac un dydd daeth dyn a fu ar bererindod grefyddol bell i seler y cobler. Magwyd y dyn hwn yn yr un pentref gwledig a Martin, a dywedodd Martin wrtho am ei drallod a'i alar.

"Nid oes gennyf mwyach ewyllys i fyw. Nid oes gennyf yr un gobaith yn y byd."

Dywedodd y Pererin wrtho nad oes gennym hawl i farnu gweithrediadau Duw. "Eich anobaith—y mae hwnnw yn tarddu o'ch dymuniad i fyw er mwyn eich hapusrwydd chwi eich hunan."

"Pa beth arall sydd y gall dyn fyw er ei fwyn ? " gofynnai Martin.

"Er mwyn Duw," atebodd y Pererin. "Rhoes i chwi fywyd, ac er ei fwyn ef y dylasech fyw eich bywyd. Wedi i chwi ddysgu byw dros Dduw ni byddwch yn galaru mwyach."

Aeth Martin yn dawel, ac yna gofynnodd, "Ymha fodd y gall dyn fyw dros Dduw ? "

Soniodd y Pererin wrtho am Grist, ac am yr Efengylau. Y dydd hwnnw prynodd Martin iddo'i hun Destament Newydd mewn print brâs.

Darllenai ohono bob dydd, ac weithiau byddai'r lamp yn llosgi allan cyn y gallai gau'r llyfr. Fel y darllenai, ai'r baich ar ei feddwl yn ysgafnach. O'r amser hwnnw daeth cyfnewid mawr dros ei fywyd. Daeth tangnefedd i'w galon. Po fwyaf y darllenai, cynyddai ei hapusrwydd.

Un noson yn hwyr, ac yntau'n darllen yr Efengyl Luc am Iesu yn nhŷ Simon y Pharisead ; ac am y wraig honno a olchodd traed Iesu a'i dagrau, ac a'u sychodd a gwallt ei phen ; ac am eiriau Iesu wrth Simon yn cyfiawnhau gweithred y bechadures, rhoes Martin ei spectol ar y llyfr. Dechreuodd feddwl a oedd ef fel y Pharisead, yn meddwl dim ond amdano'i hun. Pe deuai Iesu ato ef, ai fel hyn y byddai'n ymddwyn tuag ato ? Pwysodd ei ben ar y Testament agored, ac yn union syrthiodd i drymgwsg. Yna ysgydwodd ei hun fel petai wedi clywed rhywun yn galw ei enw. Ni welodd

neb, ond tybiodd fod llais yn ei orchymyn i edrych allan i'r stryd yfory, ac y cai ei ddymuniad. Cododd Martin o'i gadair, ac ni wyddai ai yn effro ynte yng nghwsg y clywodd y llais.

Bore trannoeth cododd yn gynnar, a meddyliai'n ddwys am ddigwyddiad y noson gynt. Bob tro y pasiai esgidiau dieithr heibio i'r ffenestr plygai Martin i lawr er mwyn gweld wyneb y dyn. Aeth llawer heibio. Cyn hir daeth henwr i ymyl y ffenestr. Pwysodd ennyd yno ar ei bâl. Adnabu Martin ef fel hen filwr yn byw ar gardod siopwr cyfagos. Dyma'r henwr yn dechrau symud yr eira o flaen y ffenestr. Sylwodd Martin arno, ac aeth ymlaen a'i waith. "Rhaid fy mod yn hen ffŵl," meddai. "Stepanitch yn dod i glirio'r eira, a minnau'n meddwl fod y Crist yn dod i roi tro amdanaf. Hen ffŵl!"

Y pwythyn yn y lledr, ond y ffenestr eto'n tynnu'r sylw. Y bâl yn erbyn y wal, ac yr oedd yn amlwg nad oedd gan y milwr y nerth i gyflawni ei waith. Galwodd Martin ef i mewn, a rhoes dê iddo. Ond ni allai Martin gadw ei lygaid oddiwrth y ffenestr.

"Yn disgwyl rhywun?" meddai'r ymwelydd.

"Gormod o gywilydd i ddweud wrthych," meddai Martin, ac y mae'n adrodd digwyddiad y noson gynt. Y mae'r henwr yn gwrando rhwng llawenydd a dagrau ar eiriau efengyl Iesu, ac wrth fyned diolchodd i'r cobler am fwyd a chysur i enaid a chorff.

Syllu eto ar y ffenestr, a geiriau Iesu'n gwresogi ei galon. Gwelodd wraig ddieithr mewn dillad gwael, a baban yn ei chôl. Galwodd hi i mewn, ac estynnodd bob ymgeledd iddi. Gwraig milwr ydoedd, a'i byd yn wael. "Crist yn wir a'm danfonodd at eich ffenestr, neu byddai'r plentyn hwn wedi rhewi. Crist hefyd a barodd i chwithau fod mor dosturiol wrthyf," meddai'r wraig wrth ymadael.

Yn ddiweddarach yn y dydd gwelodd hen wraig, un yn gwerthu afalau, a sachaid o goed tân ar ei chefn. Rhoes y sach i lawr am funud, a dyma fachgen a oedd yn ymyl yn dal ar gyfle i ddwyn un o'r afalau. Ond daliodd yr hen wraig ef wrth ei fraich, ac wedyn wrth ei wallt, a bygythiodd fynd ag ef at yr heddgeidwad. Aeth Martin allan atynt dros y grisiau a arweiniai o'r seler i'r stryd.

"Gadewch ef yn rhydd, famgu," meddai. "Maddeuwch iddo er mwyn Crist. Gadewch ef yn rhydd. Ni wna efe hyn eto."

Gadawodd yr hen wraig ef yn rhydd, a phan oedd y bachgen ar fin dianc rhwystrodd Martin ef.

"Gofyn," meddai, "am faddeuant mamgu. Paid byth a gwneud hyn eto. Gwelais di yn dwyn yr afal."

Gofynnodd y bachgen am faddeuant yr hen wraig. "Dim gair arall am hyn," meddai Martin. "Dyma afal i ti. Mi dalaf i mamgu amdano."

"Yr ydych yn spwylio'r dyhirod bach," meddai'r hen wraig. "Byddai cosfa'n lles iddo."

"O mamgu," meddai Martin, "dyna'n ffordd ni, ond nid dyna ffordd Duw. Pe chwipid ef am ddwyn afal, pa faint y dylid ein cospi ni am ein pechodau ? "

Adroddodd Martin wrthi ddameg Iesu am y meistr a faddeuodd ddyled fawr i'w was, ac am y gwas hwnnw yn gafaelyd yn un o'i ddyledwyr wrth ei wddf. Gwrandawodd yr hen wraig yn astud, a safodd y bachgen yn ei hymyl. Wrth ymadael cododd y bachgen y sach ar ei gefn, a syllodd Martin arnynt yn mynd i lawr ar yr heol gyda'i gilydd fel hen gyfeillion.

Pan gydiodd Martin eilwaith yn ei bwythyn yn y seler, yr oedd yn dechrau tywyllu. Cyneuodd ei lamp ; cliriodd ei waith ; agorodd ei Destament Newydd. A'r llyfr agored o'i flaen cofiodd am ddigwyddiad y noson gynt, a meddyliodd ei fod yn clywed sŵn symud yn y cysgodion ym mhendraw'r ystafell. Craffai i'r cyfeiriad : tybiai iddo weld rhyw bobl yno. Yna clywodd lais yn llefaru, "Martin, a wyt yn fy adnabod i ? "

"Pwy ? " gofynnai Martin.

"Fi," meddai'r llais, ac o'r gornel dywyll y daeth ffurf Stephanitch. Yna diflannodd.

"Myfi yw," meddai'r llais, ac o'r cysgodion daeth gwraig a baban yn ei chôl, y wraig yn gwenu a'r baban yn chwerthin. Yna ciliasant i'r cysgodion.

"Myfi yw," meddai'r llais eto, ac am eiliad gwelodd Martin yr hen wraig a'r bachgen drwg yn gwenu arno.

Yn ei orfoledd y mae'n ymestyn am ei spectol, ac yn darllen o'r llyfr agored o'i flaen.

"Canys bum newynog, a chwi a roisoch i mi fwyd : bu arnaf syched, a rhoisoch i mi ddiod : bum ddieithr, a dygasoch fi atoch . . . Yn gymaint a'i wneuthur ohonoch i un o'r rhai hyn fy mrodyr lleiaf, i mi y gwnaethoch."

Deallodd Martin fod ei freuddwyd wedi ei gyflawni, a bod yr Iechydwr wedi dod ato, ac yntau wedi rhoi iddo groeso."

—*Addasiad o un o storiau byrion Tolstoi.*

Cynghrair y Gwragedd.

RHANBARTH CEREDIGION.

CYDGYNULLODD nifer dda i gyfarfod y pwyllgor gweithiol yng Nghapel y Groes ar brynhawn Sadwrn, Mawrth 13. Ni allai Miss Jones, Esgeringlis, fod yno. Felly cymrwyd y gwasanaeth defosiynol gan y Parch. A. J. Martin, a Mrs. Davies, Caergwilym, wrth yr organ. Llywyddwyd gan Mrs. Park Davies, ac yn ei chroeso i'r aelodau dywedodd mai da ganddi weld cynrychiolaeth mor llawn mewn amser mor anodd.

Amlygai'r adroddiadau mor ddiwyd y bu'r adrannau yn ystod tymor y gaeaf ac mor amrywiol oedd y gwaith. Cydymdeimlwyd â Mrs. Jenkins,

Blaenwaun-ganol ar farw ei modryb, Miss Jenkins. Cydymdeimlwyd hefyd â Mrs. Richards, Maesygaer, ar golli ohoni ei nai. Estynnwyd dymuniadau gorau'r aelodau i Mrs. Davies, Llwynifan, yn ei hafiechyd hir. Etholwyd Mrs. Gwilym Evans, Llandysul, yn gynrychiolydd i'r cwrdd blynyddol ym Manceinion. Cynhelir cyfarfod nesaf y pwyllgor gweithiol ym Mhantydefaid.

Cynigiodd Miss Jones, Gellifaharen, benderfyniad o brotest yn erbyn y cynnydd mewn gwerthu diodydd meddwol i ferched yng ngwasanaeth y lluoedd arfog ac ar y tir. Ategwyd y penderfyniad gan Mrs. Davies, Faerdre, a siaradodd amryw ar y mater. Pasiwyd y penderfyniad yn unfrydol. Cyfeiriodd Mrs. T. O. Williams at yr angen mawr am fwy o addysg grefyddol yn y cartrefi Undodaidd.

Wedi diolch i'r llywydd, ac i adran Capel y Groes am y croeso, cyfranogwyd o'r tê, ac wedi awr bleserus yng nghwmni ein gilydd terfynwyd y cyfarfod.

K.J.

Cofnodion Pwyllgor y Gymdeithas.

Cynhaliwyd yng Nghribyn ar ddydd Mercher, Mawrth 31, a'r Llywydd, yr Henadur M. Ll. G. Williams, Y.H., Woodlands, yn y gadair.

Darllenwyd a chadarnhawyd cofnodion y Pwyllgor blaenorol. Darllenwyd hefyd gofnodion y pwyllgor gwaith a derbyniwyd ei awgrymiadau, sef—fod y Parch. J. D. Jones, B.A., B.D., Trebanos i fod yn Llywydd am 1943–44, a'r Cynghorwr John Evans, Beilicadarn, yn Is-lywydd, ac ail-ethol y swyddogion eraill.

Grants o'r General Assembly. Pasiwyd ein bod yn cymeradwyo'r General Assembly i wneud yr un grants a llynedd i gynulleidfaoedd Heol Newydd, Aberystwyth ; Capelycwm ; Pantteg a Phenrhiw.

"Helyntion Hen Bregethwr." Cafwyd ar ddeall gan yr Ysgrifennydd fod pob copi a oedd ar ei law wedi eu gwerthu, a bod elw tra sylweddol wedi dod i'r Gymdeithas o'r gwerthu. Mae'r diolch am hyn i raddau pell yn mynd i Mr. D. Lewis, Y.H., Gwasg Gomer.

Y Sefyllfa Ariannol. Cafwyd ar ddeall gan y trysorydd fod y sefyllfa'n bur galonogol, ac awgrymai na fyddai eisiau prydcru ond i'r cynulleidfaoedd gadw'n ffyddlon gyda'u cyfraniadau. Dim ond un gynulleidfa a fethodd ddanfon casgliad am y flwyddyn.

Y Gynulleidfa Gymraeg yn Llundain. Mae'r gynulleidfa hon yn apelio at y General Assembly ar iddi gael ei chydnabod fel cynulleidfa sefydlog. Awgrymodd y trysorydd y byddai'n gefnogaeth i'r cyfeillion yno pe gwnai ein cymdeithas ninnau ei chydnabod hefyd, a hynny mewn ffordd ymarferol. Penderfynwyd ystyried y mater yn y cyrddau blynyddol. Yn y cyfamser gofynnwyd i'r ysgrifennydd i ddanfon dymuniadau gorau'r Gymdeithas iddynt.

Y Cyrddau Blynyddol. Trefnwyd gofyn i gynulleidfa'r Graig, Llandysul fod cystal a'u derbyn. Awgrymai'r Parch. J. Islan Jones os nad oedd y Graig

yn abl i'w derbyn mai doeth fyddai eu cynnal yn Llanbedr a phob un i ofalu am fwyd iddo'i hun yn y dref.

PARCH. H. H. C. JONES, B.A., ABERDEEN. Gyda theimlad o dristwch y derbyniwyd y newydd o'i afiechyd trwm, a phasiwyd fod cydymdeimlad llwyraf y Gymdeithas iddo ef a'i deulu ynghyd â'r dymuniadau gorau am wellhad.

MRS. DAVIES, LLWYNIFAN. Blin gan bawb oedd clywed am farwolaeth Mrs. Davies, un o ffyddloniaid Caeronnen a'n cyfundeb o eglwysi. Gofynnwyd i'r ysgrifennydd ddanfon neges o gydymdeimlad i'r teulu.

Cyflwynodd y Llywydd ddiolch cynnes i gynulleidfa Cribyn am dderbyn ohoni y cyrddau. Gan fod y Llywydd wedi ei luddias i gyrraedd y lle'n brydlon llywyddwyd dros y rhan gyntaf o'r cwrdd gan y Parch. J. Islan Jones, M.A.

E. O. JENKINS.

Priodas.

IONOR 2, yng Nghapel Cribyn, EVAN TOM THOMAS, Llechwedd-deri Isaf a HANNAH MYFANWY EVANS, Fronfelen, Cribyn, y Parch. A. J. Martin yn gwasanaethu.

Marwgofion.

CHWEFROR 23, yn 69 mlwydd oed, bu farw Mrs. SARAH JONES, Brynarwel, Gorsgoch, gynt o Lyncoch. Trawyd hi'n ddisymwth. Galarai'n ddwys ar ôl ei phriod, y diweddar Daniel Jones. Ychydig a feddylid wrth ei gweld yn ymroi i gerdded bob cam o Gorsgoch i Gapel-y-groes, dros dair milltir, a hynny'n aml, mai byr iawn oedd yr amser yn ôl iddi. Aelod ydoedd yng Nghapel-y-bryn, ond deuai'n aml yng nghwmni perthnasau i Gapel-y-groes, hen gysegr ei theulu. Gwraig dawel, gymwynasgar oedd hi, ac Undodwraig selog, a'i chredo yn syml. Gadawodd un ferch ar ei hôl mewn galar dwys o golli mam dda. Fe'i claddwyd ddydd Sadwrn, Chwefror 27, ym mynwent Capel-y-groes. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parchn. E. O. Jenkins ac A. J. Martin, yn y capel gan y Parchn. S. E. Bowen ac A. J. Martin, ac ar lan y bedd gan y Parch. T. Oswald Williams.

MAWRTH 12, yn 73 mlwydd oed bu farw RACHEL JENKINS ym Mlaenwaunganol, yr olaf o genhedlaeth luosog a fagwyd ar aelwyd Blaenwaunganol. Perthynai ei thad i Undeb Cerddorol Ceredigion, ac yr oedd ef a'i blant wedi ymddisgyblu i egwyddorion cerddoriaeth. Yr oedd ganddynt gôr cryf ar yr aelwyd, ac fe elwodd Capel-y-groes yn fawr ar ffrwyth y disgyblu cerddorol a gafwyd yno. Treuliasai Miss Jenkins 21 mlynedd gyda'i brawd, y diweddar Barch. Enoch Jenkins, yn Walmsley, Sir Gaerhirfryn. Daeth yn ôl i fyw i

Waun Villa, ac yn ddiweddar, wedi iddi fynd yn rhy ddiymadferth i fod wrth ei hun, cafodd ymgeledd parod ei nith, Mrs. Jenkins, Blaenwaunganol. Un siriol iawn ydoedd. Cellweiriai hyd yn oed ám ei llesgedd mai diogi oedd arni. Ymddiddorai'n fawr iawn yn yr Undodiaid, ac nid rhyw ddiddordeb cyffredinol yn unig oedd hwn, ond ymdeimlai â chyfrifoldeb yn ei heglwys ei hun. Fe'i claddwyd ym mynwent Capel-y-groes, ddydd Mercher, Mawrth 17. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parchn. J. Islan Jones a Lewis Williams, yn y capel gan ei gweinidog, y Parch. A. J. Martin a'r Parchn. S. E. Bowen ac E. Gwilym Evans, ac ar lan y bedd gan y Parch. T. Oswald Williams. Yr oedd yno hefyd y Parch. D. Evans, Cwmiago, hen gydnabod y teulu.

MAWRTH 16, ar ôl cystudd cymharol fyr ond caled, ELEANOR JONES, annwyl briod Edward Jones, Rhydsais, ger Capel-y-fadfa yn 72 oed. Benyw o ysbryd tawel, diddig oedd Mrs. Jones, a'i chartref a gofalon cartref ai a'i bryd bron yn llwyr. Anfynych y gwelid hi oddicartref ; yr oedd yn amddifad bron o'r elfen i farchnata a siopa. Gofalu am y cartref, cadw gwaith y cartref i fynd oedd ei huchelgais hi. Yn wir, gellir dweud iddi fyw i'w phriod a'i phlant. Eu hiechyd hwy, eu cysur a'u llwyddiant hwy oedd ei phopeth. Bu'n briod ffyddlawn iawn i'w gŵr, ac yn fam ragorol i'r plant. Ar yr aelwyd yr oedd yn groesawgar iawn, ac ni chai neb ymadael a Rhydsais ar ei gythlwng. Ei chwestiwn cyntaf i'r ymwelydd oedd : pryd cawsoch chwi fwyd ddiwetha ? Ac yr oedd wrth ei bodd yn gweld yr ymwelwyr yn gwneud y gorau ohoni. Yr oedd ei hiechyd wedi rhoi ers blynyddoedd, a'r gaeaf yn dymor anodd iddi. A dyna'r yrfa drosodd, a phriod, plant, wyrion, brawd, a llawer o berthynasau eraill wedi eu gadael i wylo ei cholli. Claddwyd y dydd Sadwrn dilynol yng Nghapel-y-fadfa, yr angladd yn gyfyngedig i'r perthynasau. Gwasanaethwyd gan y Parchn. E. O. Jenkins ; A. M. Jones, Mydroilyn ; H. Ponsford, Talgarreg ; a Kemes Lewis, Pisgah.

MAWRTH 17, yn 83 mlwydd oed bu farw GRUFFYDD JONES, Castle Green, Cwrtnewydd, yn awr ond yn fwy adnabyddus fel o Frynllefrith, Cwrtnewydd. Treuliodd ei oes hyd iddo ymneilltuo yn hen gartref Dafydd Llwyd. Gŵr tawel a thangnefeddus ydoedd, geirwir a gonest a threuliodd fywyd diwast yn ei hen ardal. O'i blentyndod bu ynghlwm â Chapel-y-bryn, a bu yn ddiacon yma am yn agos i hanner can mlynedd, ac yn swyddog am chwarter canrif. Carai gerddoriaeth, a charai fyw ei grefydd. Yr oedd yn selog mewn cwrdd ac ysgol Sul ac yng nghyfarfodydd yr enwad. Nid yn aml y gwelid ei le yn wag tra gallodd. Yr oedd rhywbeth yn brydferth yn ei fywyd drwodd a thro. Cafodd fyw i weld claddu ei briod, ei fab a'i ferch, ac yntau wedi'i adael yn unig yng nghwmni ei ddwy wyres, a'i ferch yng nghyfraith a fu yn gweini'n dyner arno. Claddwyd y dydd Sadwrn dilynol ym mynwent Capel-y-bryn. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parch. S. Thomas, Capel Seion ; yn y capel gan y Parch. S. E. Bowen (ei weinidog) a'r Parch. Lewis Williams, ac ar lan y bedd gan y Parch. T. O. Williams, M.A., Llanbedr. Gadawodd ddwy wyres, chwaer, merch yng nghyfraith a nifer o berthynasau a ffrindiau i wylo deigryn melys ar fedd henafgwr tawel a gweithgar.

MAWRTH 19, bu farw JOHN EVANS, Bryndelyn, Llanwnen, yn 72 oed. Saer wrth ei alwedigaeth ac yn fab i saer, llanwodd le parchus yn ei ardal, yn grefftwr da a gonest. Yr oedd ei dad yn un o ddiaconiaid cyntaf Capel-y-bryn ac yno y bu yntau yn aelod ffyddlon drwy ei oes, ac yno hefyd y mae ei frawd Tom Evans, Fronddu yn awr ac ers blynyddoedd bellach yn ddiacon. Daearwyd ei weddillion y dydd Llun dilynol yng Nghapel-y-fadfa. Gwasanaethwyd gan y Parch. Aubrey J. Martin yn y tŷ ; y Parchn. S. E. Bowen a S. Thomas. Seion Cwrtnewydd yn y Capel ; a'r Parch. T. O. Williams ar lan y bedd, Gadawodd ddau fab ac wyrion mewn galar ar ei ôl.

MAWRTH 22, wedi hir ddioddef, bu farw THOMAS PARRY, Glanclettwr Cottage, Pontshan, Llandysul, yn 48 mlwydd oed. Claddwyd ei weddillion marwol ym mynwent Llwyncelyn, Aberaeron, Mawrth 26. Un o gymeriadau anwylaf Dyffryn Clettwr oedd yr ymadawedig, ond garw iawn fu ei daith drwy'r byd. Yn ddeunaw oed ymunodd â'r fyddin yn y Rhyfel Mawr a bu yn garcharor yn yr Almaen dros amser. Gwelodd yno eisiau bwyd a collodd ei iechyd, ond ni chafodd *pension* ar law ei wlad anniolchgar. Ond da yw gwybod bod ereill wedi bod yn garedig tuag ato. Gweinyddwyd arno yn dyner iawn gan ei ferch drwy oriau meithion poen a phryder, a chydymdeimlwn yn fawr â hi a'i brawd yn eu hiraeth. Dyn o gymeriad addfwyn oedd ein brawd, diniwed a dirodres. Tra addas oedd testun pregeth ei weinidog : "Gwyn eu byd y rhai addfwyn, canys hwy a etifeddant y ddaear." Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parchn. Jenkin Jones a J. H. Griffiths, ac ar lan y bedd gan y Parch. E. O. Jenkins.

MAWRTH 27, yn ddirybudd, hunodd RACHEL ANN WILLIAMS, Rhiwlug, Llandysul, yn 47 mlwydd oed. Gwan iawn fu ei hiechyd ers amser maith ac nid annisgwyliadwy y diwedd ; er hynny mawr oedd siom y teulu a mawr eu hiraeth ar ei hôl. Claddwyd ei gweddillion Mawrth 31, ym mynwent Bwlchygroes. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan ei gweinidog, y Parch. E. Gwilym Evans, a phregethwyd yn y capel gan y Parch. T. Davies, ym mhresenoldeb cynulleidfa fawr. Chwaraewyd yr organ gan Miss Evans, Dedwyddfa, Llandysul. Talwyd teyrnged uchel i gymeriad yr ymadawedig fel dynes weithgar, fwynaidd a chariadus ; gadawodd ar ei hôl mewn hiraeth dwys, briod ag wyth o blant, tad a mam a chwaer ag amryw berthynasau. Cydymdeimlwn yn ddidwyll â hwynt yn eu colled amhrisiadwy. "Felly y rhydd Efe hûn i'w annwylyd."

MAWRTH 30, yn 64 mlwydd oed bu farw MRS. DAVIES, Llwynifan, wedi dihoeni dro, ac o'i marw collasom un o oreuon plwy Cellan ac un o golofnau Caeronnen yn bendifaddeu. Hannai o deulu Rhydybennau o ochr ei mam, ac nid ar fyrr yr anghofir croeso siriol hen aelwyd Trebannau. Nid oedd un iod nac un tipyn yn fwy gwresog nag aelwyd Llwynifan. Yr oedd Mrs. Davies yn Undodwraig i'r craidd ac ni bu nebun yn fwy ffyddlon i'w chapel nac i gyfarfodydd yr enwad. Ond nid dim ond yn ei chapel yr oedd yn weithgar. Troai ymhob cylch yn ei phlwy ac nid oedd neb yn fwy ei pharch

na'i hun. Magodd deulu lluosog, a dysgodd iddynt bob yr un barchu Caeronnen a chrefydd. Nid yn aml y gwelid gwraig mwy hawddgar a selog, mwy siriol a gweithgar, mwy golau a blaengar na hi. Nid ydym yng Nghaeronnen eto yn medru sylweddoli ein colled. Gadawodd briod, chwech merch a dau fab (ac un ohonynt mewn submarine ym Môr y Canoldir), un brawd, yr hynaf a'r olaf o deulu Trebannau, heblaw nifer o berthynasau eraill a ffrindiau dirif i alaru o'i mynd. Claddwyd y dydd Sadwrn dilynol ym mynwent Caeronnen lle yr addolodd o'i chrud i'w bedd, a thystiai y blodau ar ei bedd i'w pharch yn yr ardal a'r ardaloedd. Gwasanaethwyd yn yr angladd anghyoedd gan ei gweinidog y Parch. T. O. Williams. Nid oes neb yn marw heb adael bwlch ar ei ôl, ond yma yng Nghaeronnen y mae'r bwlch, ond odid, yn ormod i ni geisio ei gau.

Nodion yr Eglwysi.

CILIAU AERON.—Mawrth 5ed cynhaliwyd y Sosial Flynyddol yn festri'r capel. Daeth bron pawb sy'n perthyn i'r eglwys ynghyd. Caed tê i gychwyn gan Mrs. Davies, Foelallt ; Mrs. Hughes, Brynteg, Dihewyd ; Mrs. Turner, Dolau ; a Mrs. Jones, Cil-llwch. Nid oedd ôl prinder dim ar y byrddau, ond yr amrywiaeth mewn melysfwydydd a'r cyflawnder ohonynt yn gwireddu y dywediad : "lle mae ewyllys y mae ffordd." Yn y rhan gyntaf o'r cyfarfod a ddilynodd caed adroddiadau a chaneuon gan y plant. Ar ôl hynny arweiniwyd gan Mr. T. Elias, Parc. Yr oedd wedi paratoi rhaglen a roddodd gyfle i rai o bob oed i gystadlu mewn ateb cwestiynau, ac adrodd a chanu, a llawer o bethau eraill. Efe hefyd oedd y beirniad. Caed llawer o gystadlu, a bu y rhan hwn o'r cyfarfod yn un a roddodd fwynhad mawr i'r cystadleuwyr a'r gwrandawyr. Talwyd diolch i'r gwragedd am roddi y fath wledd o dê gan yr Henadur Simon Davies, Y.H., Greengrove, a Dr. T. Evans, Parc.

ABERDÂR.—Nos Sul, Mawrth 14, cynhaliwyd cwrdd canu undebol dan nawdd yr Hen Dŷ Cwrdd yn Ebenezer, capel hardd ac eang yr Annibynwyr. Mudiad a godwyd gan Gyngor Eglwysi Anghydffurfiol Trecynon yw'r cyrddau hyn er mwyn *community singing*. Cynnwys y Cyngor saith o eglwysi, ac eir a'r cwrdd o amgylch y gwahanol gapeli. Syrthiodd i ran eglwys yr Hen Dŷ Cwrdd y tro hwn drefnu'r cwrdd a'r rhaglen. Yn ôl y drefn arweinydd canu yr eglwys sydd yn trefnu sydd yn arwain. Felly Mr. John Thomas a fu'n arwain yn y cwrdd hwn. Efe hefyd a ddewisodd y tonau, ac hyd y medrai rhaid oedd dewis tonau a oedd yn llyfrau'r gwahanol enwadau. Yn ffodus llwyddodd i wneud hyn, a bu hynny'n achos i hyrwyddo'r gwaith. Am nad oedd capel yr Hen Dŷ Cwrdd yn ddigon mawr i gynnwys y dorf sy'n mynychu'r cyrddau hyn, trwy garedigrwydd cynulleidfa Ebenezer cafwyd benthyg y capel eang a'i organ swynol. Wel, daeth torf fawr o gantorion ynghŷd, y capel yn llawn a hwylustod neilltuol ar y canu.

Nid oes ond canmoliaeth i'w glywed ar bob llaw, y ganmoliaeth yn fynegiant o ysbryd dymunol iawn. Llywyddwyd gan y Parch. E. R. Dennis, ac mewn geiriau pwrpasol yn ystod y cwrdd dywedodd mor hapus y teimlai am fod y cyrddau hyn yn ein dwyn fel enwadau yn nes at ein gilydd mewn ysbryd Cristnogol. Anghofir y gwahaniaethau yn ein cyd-foliant i'r Goruchaf. Estynnodd ddiolch gwresocaf eglwys yr Hen Dŷ Cwrdd i weinidog, diaconiaid, a swyddogion Ebenezer am eu dangoseg o ysbryd brawdol. Dymunai am lwyddiant a pharhad y cyrddau undebol hyn. Cerddwn rhagom dan faner Tywysog Tangnefedd. Diolchir hefyd i organydd Ebenezer am gynorthwyo mor rhagorol. Bachgen ifanc ydyw, a dangosodd eisoes fedr neilltuol fel organnydd. Pob bendith arno yn ei waith yn y Cysegr. Terfynwyd trwy weddi gan y Parch. Elvet Thomas, Siloh, ysgrifennydd y Cyngor. Cwrdd canu a gofir yn hir gan eglwys yr Hen Dŷ Cwrdd oedd hwn am fod y moliant wedi cyrraedd safon mor uchel a'r ysbryd mor addolgar.

LLUNDAIN.—Cyferfydd yr Eglwys Undodaidd Gymraeg yn Eglwys Unity, Upper Street, Islington, N., y dydd Sul cyntaf o'r mis am 4.15 p.m. Cawsom wasanaeth llawn o ysbrydoliaeth a nifer dda yn bresennol ym mis Mawrth. Rhoddodd y Parch. T. L. Jones agwedd newydd ar yr ateb i'r cwestiwn "Pa beth yw Dyn?" Oherwydd afiechyd y Parch. D. Delta Evans, y mae Mr. Jones yn garedig iawn wedi addo cymryd ein gwasanaeth nesaf, sef Ebrill 4. Blin iawn gennym oll glywed nad ydyw Mr. Evans yn dda ei iechyd. Clywsom fod ein Cadeirydd wedi bod yn bresennol yn ddiweddar yng nghwrdd eglwys blynyddol Capel Undodaidd Caerliwelydd (Carlisle), ac iddo roddi iddynt fraslun o hanes ymdrechion ein heglwys Gymraeg fechan yn Llundain. Pregethir ar Fai 2 gan y Parch. J. Tyssul Davies, B.A.

CAPEL-Y-CWM.—Dydd Sadwrn, Mawrth 20 rhoddwyd gwledd o dê i blant yr ysgol Sul ac i aelodau Cynghrair y Gwrgaedd gan Miss Margaret Jane Evans, Crossway, a Miss Lizzie Jenkins, Penffordd, dwy o ferched ifainc y gynulleidfa. Diolchwyd iddynt yn gynnes am eu caredigrwydd. Yn dilyn cafwyd rhaglen ddiddorol gan y plant, a'r Henadur Meredith Williams yn llywyddu. Rhoddwyd gwobrwyon i ffyddloniaid yr ysgol Sul fel arfer gan yr Henadur a Mrs. Meredith Williams.

IECHYD.

Ein hucha' dawn, pur iechyd yw—trwy oes
Pen trysor dynolryw,
Egni a bair, gwin y byw,
A thad pob bendith ydyw.

Llannon, Ceredigion. Ioan Rhys.

Argraffwyd gan J. D. Lewis a'i Feibion yng Ngwasg Gomer, Llandysul.